

Forwarded message — Dyma'r ymateb dwi wedi ei dderbyn gan Lee Waters  
From: <DeputyMCC.GovernmentBusinessUnit@gov.wales>  
Date: Fri, Mar 10, 2023 at 3:04 PM  
Subject: Welsh Government Correspondence: TO-LW-00293-23  
To: <cyngorllanbedr@gmail.com>

Y Grŵp  
Newid  
Hinsawdd  
a  
Materion  
Gwledig  
Climate  
Change  
and Rural  
Affairs  
Group



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref TO-LW-00293-23

Annwyl Morfudd,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Chwefror at y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar ran Cyngor Cymuned Llanbedr ynglŷn â Llanbedr. Gofynnwyd imi anfon ateb atoch.

Byddai'r cynllun gwreiddiol wedi cael ei ariannu drwy'r Gronfa Trafnidiaeth Leol, sy'n grant y gall awdurdodau lleol wneud cais amdano bob blwyddyn mwyn bwrw ymlaen â phrosiectau trafndiaeth. Mae'r gronfa honno'n agored i Gyngor Gwynedd wneud ceisiadau am gymorth er mwyn dod o hyd i atebion sy'n cyd-fynd â Strategaeth Trafnidiaeth Cymru.

Ar ôl argymhelliad y panel Adolygu Ffyrdd a phenderfyniad (Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad Ffyrdd – Ffordd Fynediad Llanbedr (1 Tachwedd 2021 LLYW.CYMRU) y Dirprwy Weinidog i beidio â chefnogi rhagor o waith ar gynllun Ffordd Fynediad Llanbedr, rydym wedi bod yn ceisio trafod â'r awdurdod lleol i ddatblygu atebion cynaliadwy i'r problemau yn Llanbedr.

Fodd bynnag, er ein bod wedi cael cyfarfodydd gyda'r awdurdod lleol, yn anffodus, ni lwyddwyd i benderfynu ar y ffordd ymlaen. Holl bwrpas yr Adolygiad Ffyrdd yw dechrau'r broses o ymateb i broblemau trafndiaeth heb droi'n awtomatig at eu datrys drwy adeiladu ffyrdd. Rydym yn parhau i fo yn barod i weithio gyda'r awdurdod lleol.

Hoffem drin Llanbedr fel cynllun gwledig enghreifftiol, er mwyn ceisio dod o hyd i atebion amgen er mwyn mynd i'r afael â'r problemau. Gobeithio y ga y gwaith ddangos y ffordd i gymunedau eraill a'u helpu i ddod o hyd i atebion a all fynd i'r afael â thagfeydd a'r newid yn yr hinsawdd hefyd.

Thank you for your letter of 16 February to the Deputy Minister for Climate Change on behalf of Llanbedr Community Council regarding Llanbedr. I have been asked to reply.

The original scheme would have been funded via the Local Transport Fund, which is a grant that local authorities can apply for each year to take forward transport projects. That fund is open to Gwynedd Council to make applications for solutions that are in line with the Wales Transport Strategy.

Following the Roads Review panel recommendation and the Deputy Minister's decision not to support any further work on Llanbedr Access Road scheme, we have been trying to engage with the local authority to develop sustainable solutions to the problems in Llanbedr.

However, whilst we have had meetings with the local authority, unfortunately there has been no progress on the way forwards. The whole purpose of the Roads Review is to begin the process of responding to transport problems without automatically defaulting to road building solutions and we remain willing to work with the local authority.

We would like to treat Llanbedr as an exemplar rural scheme, to try and find alternative solutions to deal with the problems and hope the work can show the way to other communities to help find solutions that can tackle both congestion and climate change.

Yn gywir,

**Rob Kent-Smith**

Dirprwy Gyfarwyddwr / Deputy Director

Cysylltedd Trafnidiaeth a Digidol / Transport and Digital Connectivity

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre: 0300 0604400

DeputyMCC.GovernmentBusiness@llyw.cymru

DeputyMCC.GovernmentBusiness@gov.wales

Sganiwyd y neges hon am bob feirws hysbys wrth iddi adael Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd o ddifrif yr angen i ddiogelu eich data. Os cysylltwch â Llywodraeth Cymru, mae ein hysbysiad preifatrwydd yn esbonio sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth a sut rydym yn diogelu eich preifatrwydd. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn anfon ateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. On leaving the Welsh Government this email was scanned for all known viruses. The Welsh Government takes the protection of your data seriously. If you contact the Welsh Government then our Privacy Notice explains how we use your information and the ways in which we protect your privacy. We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



image001.jpg  
129K

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government